

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(A48(RHAN), B4265(RHAN), B4270(RHAN) A4222 A FFYRDD YMYL AMRYWIOL,  
Y BONT-FAEN A LLANDŴ / EWENNI) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA,  
40MYA A 50MYA A DIRYMIAD) 2021**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod:
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynllun Rhif: T/21/26/MS ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk) ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF947) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i [C1V@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:C1V@valeofglamorgan.gov.uk) erbyn **7 Ionawr 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn a gynigir.

**ATODLEN 1**

**Dirymu'r Gorchymynion cyfyngiad cyflymder canlynol yn eu cyfanrwydd:  
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (A48 (rhan), Ruthin Road (rhan), Nash View, B4270 Llantwit Major Road (rhan) B4268 Llysworney Road (rhan))  
(Cyfyngiad Cyflymder 30, 40 a 50mya a Dirymiad) 2019  
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Church Road (rhan), Y Bont-faen)  
(Cyfyngiad Cyflymder 30mya a 40mya) 2009**

**ATODLEN 2**

**Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd deithio'n gyflymach na 30 milltir yr awr ar hyd y darnau canlynol o ffyrdd:**

**Nash View, Pentremeurig**

O'r gyffordd â Ruthin Road tua'r gorllewin ar ei hyd, pellter o tua 48 metr.

**(A48 (rhan) Y Bont-faen**

O bwynt 200 metr i'r gorllewin o ganol y gyffordd â'r B4270 Llanfrynach Drive, tua'r dwyrain am tua 472 metr.

**B4270, Llanfrynach Drive a'r B4270, Llantwit Major Road (rhan), Y Bont-faen**

O ganol y gyffordd â'r A48, i'r de ac yna i'r gorllewin am tua 1,450 metr.

O bwynt 329 tua'r de-orllewin o ganol y gyffordd ag Ysticl-Garu, tua'r gogledd-ddwyrain am tua 500 metr.

**Llantwit Major Road (rhan), Y Bont-faen**

O'r lleoliad mae'r cyfyngiad cyflymder 30mya yn dod i ben, sydd tua 175 metr tua'r de-orllewin o Darren Close, i'r gorllewin o'r gyffordd â'r B4270, Llanfrynach Drive, pellter o tua 406 metr.

**Church Road (rhan), Llanfleiddan**

O bwynt tua 50 metr i'r gogledd-orllewin o ganol y gyffordd â Church View, i'r gogledd-orllewin i'r gyffordd â B4270, Llantwit Major Road.

**Ysticl-Garu (rhan), Llyswyrni**

O'r gyffordd â'r B4270, Llantwit Major Road, tua'r gogledd-orllewin am tua 470 metr, yn unol â'r cyfyngiad cyflymder 30 milltir yr awr.

**ATODLEN 3**

**Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd deithio'n gyflymach na 40 milltir yr awr ar hyd y darnau canlynol o ffyrdd:**

**A48 (rhan), Pentremeurig**

O bwynt 348 metr tua'r gogledd-orllewin o ganol y gyffordd â'r B4268, tua'r de-

ddwyrain am tua 600 metr.

**Ruthin Road (rhan), Pentremeurig**

O'r gyffordd â'r A48, tua'r gogledd am tua 160 metr.

**B4268 (rhan), Llyswyrni**

O ganol y gyffordd â'r B4270, Llantwit Major Road, tua'r gogledd am tua 366 metr, yn unol â'r cyfyngiad cyflymder 30 milltir yr awr.

**B4270, Llantwit Major Road (rhan)**

O bwynt tua 75 metr i'r de o ganol y gyffordd â Pharc Busnes y Fro, tua'r gogledd ac yna tua'r gogledd-ddwyrain am tua 1557 metr, yn unol â'r cyfyngiad cyflymder 30mya.

O bwynt 171 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganol y gyffordd ag Ysticl-Garu, i'r gogledd-ddwyrain am tua 800 metr, yn unol â'r cyfyngiad cyflymder 30mya.

**ATODLEN 4**

**Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd deithio'n gyflymach na 50 milltir yr awr ar hyd y darnau canlynol o ffyrdd:**

**(A48 (rhan) Y Bont-faen**

O bwynt 348 metr tua'r gogledd-orllewin o ganol y gyffordd â'r B4268, tua'r gogledd-orllewin am tua 600 metr.

O bwynt 252 metr tua'r de-ddwyrain o ganol y gyffordd â'r B4268, tua'r de-ddwyrain am tua 1106 metr, yn unol â'r cyfyngiad cyflymder 30mya.

O bwynt 274 metr i'r de-ddwyrain o ganol y gyffordd â'r B4270, Llanfrynach Drive, tua'r de-ddwyrain am tua 3735 metr.

**A4222 (rhan), Darren Hill**

O'r gyffordd â'r A4222, Gibbet's Hill, tua'r gogledd-orllewin i'r gyffordd ymuno â ffordd ddeuol tua'r gorllewin yr A48, Ffordd Osgoi'r Bont-faen, pellter o tua 506 metr.

**A4222 (rhan), Gibbet's Hill**

O bwynt 65 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Westgate a Llantwit Major Road, tua'r gogledd ac yna tua'r dwyrain, i'r gyffordd â lôn gerbydau tua'r dwyrain yr A48, Ffordd Osgoi'r Bont-faen, pellter o tua 480 metr.

**A4222 (rhan), Primrose Hill**

O'r gyffordd ymadael â ffordd ddeuol tua'r gorllewin yr A48, Ffordd Osgoi'r Bont-faen, tua'r de-orllewin am tua 130 metr.

O'r gyffordd ymuno â ffordd ddeuol tua'r dwyrain yr A48, Ffordd Osgoi'r Bont-faen, tua'r gogledd-orllewin am tua 100 metr.

Dyddiad: 16 Rhagfyr 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA